**Highfield Welsh Policy Statement V1.1**

**Datganiad Polisi Cymraeg Highfield Fersiwn 1.1**

**Contents**

Purpose ..... 1

Welsh Language Provision ..... 1

Availability of Welsh-medium qualifications ..... 1

Targeted Qualifications ..... 2

Resource Allocation ..... 2

Engaging with Centres ..... 2

Review and Improvement ..... 2

Ongoing Monitoring ..... 3

**Cynnwys**

Diben ..... 1

Darpariaeth Iaith Gymraeg ..... 1

Argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg ..... 1

Cymwysterau Wedi'u Targedu ..... 2

Dyraniad Adnoddau ..... 2

Ymgysylltu â Chanolfannau ..... 2

Adolygu a Gwella ..... 2

Monitro Parhaus ..... 3

**Purpose**

This Policy Statement sets out how Highfield Qualifications will comply with Condition D9 of Qualification Wales's Standard Conditions of Recognition and its requirements regarding Welsh-medium qualifications. Highfield recognises the importance of language diversity and the promotion of Welsh culture. Highfield strives for equal opportunities to individuals who prefer to pursue their qualifications through their medium of Welsh. While we aim to accommodate the linguistic preferences of our learners, we acknowledge that it may not be feasible or practical to offer all qualifications Welsh. Highfield offers a partial Welsh-medium qualification provision.

**Diben**

Mae'r Datganiad Polisi hwn yn nodi sut y bydd Cymwysterau Highfield yn cydymffurfio ag Amod D9 Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru a'i ofynion ynghylch cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Mae Highfield yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol a hyrwyddo diwylliant Cymru. Mae Highfield yn anelu at gyfleoedd cyfartal i unigolion y mae'n well ganddynt ddilyn eu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Er ein bod yn anelu at ddarparu ar gyfer dewisiadau ieithyddol ein dysgwyr, rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl nac yn ymarferol cynnig pob cymhwyster yn y Gymraeg. Mae Highfield yn cynnig darpariaeth cymhwyster rhannol cyfrwng Cymraeg.

**Welsh Language Provision**

Highfield are committed to offering a range of qualifications and units through the medium of Welsh to support Welsh speakers and contribute to the preservation of the Welsh language.

Highfield currently offer a small number of Welsh-medium qualifications, and the specifications can be found on our Highfield Qualifications website.

**Darpariaeth Iaith Gymraeg**

Mae Highfield wedi ymrwymo i gynnig amrediad o gymwysterau ac unedau trwy gyfrwng y Gymraeg i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg a chyfrannu at ddiogelu'r iaith Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae Highfield yn cynnig nifer fach o gymwysterau cyfrwng Cymraeg, a gellir dod o hyd i'r manylebau ar ein gwefan Cymwysterau Highfield.

**Availability of Welsh-medium qualifications**

Highfield will endeavour to provide Welsh-medium to support Welsh speakers, considering factors such as demand, resources and feasibility. For all qualifications or units, we make available in Welsh, the respective assessments and supporting materials will be in Welsh. We will periodically review our Welsh-medium qualification offer to identify opportunities for expanding the range of qualifications available in Welsh.

**Argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg**

Bydd Highfield yn ymdrechu i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg, gan ystyried ffactorau fel galw, adnoddau a dichonoldeb. Ar gyfer pob cymhwyster neu uned, rydym yn trefnu eu bod ar gael yn y Gymraeg, bydd yr asesiadau a'r deunyddiau ategol perthnasol yn y Gymraeg. Byddwn yn adolygu ein cynnig cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn rheolaidd i adnabod cyfleoedd i ehangu'r amrediad o gymwysterau sydd ar gael yn y Gymraeg.

**Targeted Qualifications**

Highfield will prioritise offering Welsh-medium qualifications in subjects where there is identified demand and feasibility. We will take into consideration the needs of learners and Training Providers/Centres as well as qualifications considered as priority areas in Wales.

**Cymwysterau Wedi'u Targedu**

Bydd Highfield yn blaenoriaethu cynnig cymwysterau cyfrwng Cymraeg mewn pynciau lle mae galw a dichonoldeb wedi'u nodi. Byddwn yn ystyried anghenion dysgwyr a Darparwyr/Canolfannau Hyfforddiant yn ogystal â chymwysterau a ystyrir yn feysydd blaenoriaeth yng Nghymru.

**Resource Allocation**

Highfield will allocate appropriate resources, including qualified staff, materials and infrastructure, to support the delivery of Welsh-medium qualifications, with the aim of providing a high-quality learning experience for learners pursuing qualifications in Welsh.

**Dyraniad Adnoddau**

Bydd Highfield yn dyrannu adnoddau priodol, gan gynnwys staff cymwys, deunyddiau a seilwaith, i gefnogi cyflwyno cymwysterau cyfrwng Cymraeg, â'r nod o ddarparu profiad dysgu o ansawdd uchel i ddysgwyr sy'n dilyn cymwysterau yn y Gymraeg.

**Engaging with Centres**

Highfield will engage with centres to seek feedback and ensure that their needs are being met. This may involve consultation, communication and collaboration to enhance our Welsh-medium provision and make informed decisions regarding the qualifications offered.

**Ymgysylltu â Chanolfannau**

Bydd Highfield yn ymgysylltu â chanolfannau i geisio adborth a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Gall hyn gynnwys ymgynghori, cyfathrebu a chydweithio i wella ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y cymwysterau a gynigir.

## Review and Improvement

Highfield will review this policy and associated procedures as part of our self-assessment arrangements, or earlier if significant changes occur in regulatory requirements, operational practices, or identified risks. It will be revised as necessary in response to feedback from our learners, centres, associates, and regulators. This review will also be informed by our interactions with centres to ensure its effectiveness and relevance. Feedback from learners, staff and stakeholders will be valuable in shaping our approach and identifying areas for development.

As an organisation committed to providing opportunities, we aim to accommodate the linguistic needs of our learners to the best of our abilities.

Highfield consider the following factors when offering qualifications through the medium of Welsh:

## Adolygu a Gwella

Bydd Highfield yn adolygu'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig fel rhan o'n trefniadau hunanasesu, neu'n gynharach os bydd newidiadau sylweddol yn digwydd mewn gofynion rheoleiddio, arferion gweithredol, neu risgiau a nodir. Bydd yn cael ei ddiwygio yn ôl yr angen mewn ymateb i adborth gan ein dysgwyr, canolfannau, cysylltwyr a rheoleiddwyr. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn cael ei lywio gan ein rhyngweithiadau â chanolfannau er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd a'i berthnasedd. Bydd adborth gan ddysgwyr, staff a rhanddeiliaid yn werthfawr wrth lunio ein dull gweithredu a nodi meysydd i'w datblygu.

Fel sefydliad sydd wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd, ein nod yw darparu ar gyfer anghenion ieithyddol ein dysgwyr hyd eithaf ein gallu.

Mae Highfield yn ystyried y ffactorau canlynol wrth gynnig cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg:

### Availability of resources

Developing and delivering qualifications through multiple mediums requires significant resources, including qualified personnel, curriculum development, and assessment materials. Given our current resource constraints, we have prioritised offering qualifications in languages with higher demand and broader accessibility.

### Argaeledd adnoddau

Mae datblygu a chyflwyno cymwysterau trwy gyfryngau lluosog yn gofyn am adnoddau sylweddol, gan gynnwys personél cymwys, datblygu cwricwlwm a deunyddiau asesu. O ystyried ein cyfyngiadau adnoddau presennol, rydym wedi blaenoriaethu cynnig cymwysterau mewn ieithoedd sydd â galw uwch a hygyrchedd ehangach.

### Market demand

While we recognise the importance of Welsh-medium education, the demand for qualifications through the medium of Welsh may vary across different regions and sectors. Our decision is also influenced by the demand from employers, training providers/centres other stakeholders, which helps guide our qualification offer.

**Galwadau'r farchnad**

Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg, gall y galw am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg amrywio ar draws gwahanol ranbarthau a sectorau. Mae ein penderfyniad hefyd yn cael ei ddylanwadu gan y galw gan gyflogwyr, darparwyr/canolfannau hyfforddiant rhanddeiliaid eraill, sy'n helpu i arwain ein cynnig cymwysterau.

**Alignment with Regulator Conditions and Requirements**

Regulations published in respect of the qualifications we offer often have specific requirements and standards set outside Wales. In some cases, offering qualifications in Welsh may require additional approval and compliance measures that pose logistical and practical challenges at this time.

**Cydgyfeiriad ag Amodau a Gofynion y Rheoleiddiwr**

Yn aml, mae gan reoliadau a gyhoeddir mewn perthynas â'r cymwysterau a gynigiwn ofynion a safonau penodol a osodir y tu allan i Gymru. Mewn rhai achosion, gall cynnig cymwysterau yn y Gymraeg ofyn am fesurau cymeradwyo a chydymffurfio ychwanegol sy'n peri heriau logistaidd ac ymarferol ar hyn o bryd.

**Ongoing Monitoring**

We will review this policy annually to assess our capacity and evaluate the changing needs and demands of learners.

We welcome feedback and input from all stakeholders, including Welsh-medium and bilingual Centres that we work with, as we strive to continuously improve our qualification offer.

Please contact Highfield if you wish to discuss our Welsh-medium qualifications or this policy further.

**Monitro Parhaus**

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol i asesu ein gallu a gwerthuso anghenion a gofynion newidiol dysgwyr.

Rydym yn croesawu adborth a mewnbwn gan bob rhanddeiliad, gan gynnwys Canolfannau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yr ydym yn gweithio gyda nhw, wrth i ni ymdrechu i wella ein cynnig cymwysterau yn barhaus.

Cysylltwch â Highfield os hoffech drafod ein cymwysterau cyfrwng Cymraeg neu'r polisi hwn ymhellach.

**Revision History**

| Version | Date | Author | Notes |
|---|---|---|---|
| 1.0 | October 2025 | Charlotte Williams | Creation of the document |
| 1.1 | June 2026 | Charlotte Williams | Framework review |

**Hanes Adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Hydref 2025 | Charlotte Williams | Creu'r ddogfen |
| 1.1 | Mehefin 2026 | Charlotte Williams | Adolygiad fframwaith |